CYNGOR CYMDEITHAS LLANGOEDMOR COMMUNITY COUNCIL

**Cofnodion cyfarfod o Gyngor Cymuned Llangoedmor a gynhaliwyd yn yr Hen Ysgoldy, Llangoedmor, nos Lun 5 Mawrth 2018**

Presennol: Is-gadeirydd Mrs E Davies, Cyngr: Mrs Eleri Davies, Ken Symmons, Hywel Davies, Mrs L Holder, Mrs A Edwards

CS C Davies

Clerc

**1. Croeso ac Ymddiheuriadau**
Roedd y Cadeirydd y Cyng i Davies wedi anfon ymddiheuriadau. Yn absenoldeb y Cadeirydd, cadeiriwyd y cyfarfod gan yr Is-gadeirydd

Roedd y Cyng Ms N Redmond hefyd wedi anfon ymddiheuriadau. Nodwyd y byddai'r CS Clive Davies yn hwyr yn cyrraedd y cyfarfod.

**2. Gweddi Agoriadol**

**3. Datgelu Buddiannau Personol**
Dim.

**4. Materion Personol**
Dim.

**5. Ceisiadau Cynllunio**
Dim.
Nodwyd bod CSC yn cael anhawster i fynd i mewn i'r Porthol Cynllunio a byddai'n anfon cyfarwyddiadau at y Clerc sut i'w ddefnyddio bob yn gam.

Byddai Cynlluniau Lle yn cael eu trafod pan fyddai'r CS Clive Davies yn bresennol.

**6. Adroddiad y Cynghorydd Sir**
Gohiriwyd nes byddai'r CS Clive Davies yn cyrraedd.

**7. Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol**
Cynigiodd y Cyng A Edwards y dylid derbyn y cofnodion fel cofnod cywir. Eiliwyd gan y Cyng H Davies a chytunwyd yn unfrydol.

**8. Materion yn Codi**
Gofynnodd y Clerc a oedd y Cynghorwyr am ddal i gael cofnodion 'gyda chodau lliw'. Gallai'r rhan fwyaf o eitemau a chwestiynau gael eu cynnwys dan bennawd ar yr agenda. Cytunwyd yn gyffredinol fod y codau lliw yn ddefnyddiol ac y byddent yn parhau. Awgrymwyd y dylai'r Cynghorwyr cyntaf i gyrraedd y cyfarfod osod y dogfennau allan ar y seddau.

Dywedodd y Clerc fod y gwaith ymchwil ar 'Restr y Cofio' wedi'i ohirio gan ei bod yn ymddangos nawr yn bosibl cael y Rhestr yn barod ar gyfer Gwasanaeth y Cofio. Byddai hon yn parhau wrth i'r amser ganiatáu.

Cytunodd y Cyng Mrs A Edwards yn garedig i gadw'r hysbysfwrdd newydd, pe bai angen, nes iddo gael ei osod. Dywedodd y Clerc fod Mr E Rees yn bwriadu cyflwyno dyfynbris am wneud y gwaith.

**9. Cyllid a Gweinyddu**

| | Talai | Am | Banc |
|---|---|---|---|
| 5.02.18 | E Rees | Bloc toiledau, codi sbwriel a glanhau'r | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | gysgodfan | 276.00 | |
| | Earth Anchors | Hysbysfwrdd | 1,147.20 | |
| | Comisiynydd Gwybodaeth | Diogelu Data | 35.00 | |
| | Cyngos Sir Ceredigion | Treuliau Etholiad | 162.30 | |
| | Un Llais Cymru | Aelodaeth | 185.00 | |
| | Dyfed Symmons | Trwsio to adeilad y Mileniwm | 1836.00 | |
| | S Davies | Swyddfa yn y cartref / teithio 11.92 | 36.92 | |
| | HMRC | | 5.40 | |
| 30.03.18 | S E Davies | Cyflog | 336.36 | AS |

Adroddiad wedi'i addasu ar gyfer diwedd Rhagfyr (adroddiad diwedd Ionawr ddim i mewn eto) £24926.48 (gwall bach yng nghofnod y banc i gael ei ddatrys)

Cynigiodd y Cyng Mrs A Edwards y dylid derbyn y taliadau. Eiliwyd gan y Cyng H Davies, a chytunwyd gydag un ymataliad gan y Cyng K Symmons.

*Ymddiswyddiad y Cyng Mrs Kay Morgan*
Nodwyd ymddiswyddiad Mrs Kay Morgan gyda gofid a chytunodd y Cyngor i dystysgrif o ddiolch gael ei llunio iddi. Byddai'r Clerc yn rhoi gwybod i CSC am y swydd wag.
GWEITHREDU: Tystysgrif o ddiolch GAN: y Cyng Mrs A Edmunds / Clerc
GWEITHREDU: Rhoi gwybod i CSC GAN: y Clerc

*Cofrestr Asedion*
Rhoddodd y Clerc hanes byr y tir a oedd nawr yn barc ceir sy'n eiddo i'r Cyngor Cymuned y tu blaen i'r neuadd. Dywedodd, er ei bod yn ymddangos yn eithaf clir mai'r Cyngor biau'r tir, nid oedd gweithredoedd etc. Awgrymodd y dylai'r CC siarad â Phwyllgor y Neuadd i gytuno ar ffin, ac yna dylai'r CC gymryd camau i sicrhau bod y tir yn cael ei gofrestru gyda'r Gofrestrfa Tir. Byddai hefyd yn ddoeth gwneud hyn at ddibenion yswiriant.
GWEITHREDU: Siarad â Phwyllgor y Neuadd a gwahodd ymholiadau gan froceriaid yswiriant
GAN: y Cyng Mrs A Edwards.

*Ymunodd y CS Clive Davies â'r cyfarfod a gwahoddwyd ef i roi ei adroddiad.*

*Cynlluniau Lle*
Dywedodd y CS Clive Davies mai rhestr o ddymuniadau oedd y Cynllun Lle ar gyfer cymunedau o ran gofynion / materion cynllunio a syniad ble y byddai trigolion yn hoffi ei hyrwyddo. Awgrymwyd y gellid trefnu amrywiol ddigwyddiadau cymunedol er mwyn denu diddordeb cynifer â phosibl o drigolion. Awgrymodd y Cyng Mrs A Edwards fore coffi lle gallai plant yr ysgol ganu yn y man lle gellid hyrwyddo'r syniad a chael cymorth o fewn y gymuned.
GWEITHREDU: Siarad â'r ysgol GAN: y Cyng Mrs A Edwards.

Wrth drafod yr ysgol, gofynnwyd a fyddai priodas EUB y Tywysog Harry a Ms M Markle yn cael ei nodi gan ddigwyddiad yn y pentref. Roedd trafodaeth yn parhau.

Dywedodd y CS Clive Davies fod ymdrechion ar y gweill i gael nawdd i hwyluso'r prosiect Cynllun Lle.

Dywedodd hefyd ei fod wedi gofyn am gael edrych ar y cynlluniau gwreiddiol ar gyfer ystâd Glannant er mwyn sefydlu a ddylai ffens fod wedi'i chodi rhyngddi hi a Preseli View a man chwarae fod wedi'i ddarparu. Roedd ef hefyd wedi mynd ar ôl y gŵyn am y llain borfa wrth y fynedfa i Preseli View. Cadarnhaodd fod y ffordd wedi ei mabwysiadu ond bod y llain yn eiddo i'r gymdeithas tai. Teimlai y byddai angen ail-ddylunio'r fynedfa i'r ffordd er mwyn datrys y broblem.

Soniodd am ei ymwneud wrth lunio ymateb CSC i'r arolwg o drefniadau etholiadol yn y Sir, a chytunodd i gadw llygad ar gynnydd unrhyw geisiadau Datblygiad Un Blaned a fyddai'n ymwneud â ward Llangoedmor, er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn cael cyfle i ymateb. Byddai'n siarad â swyddogion CSC i gael y diweddaraf am y sefyllfa yn Corner Wood.

Diolchwyd iddo am ei amser.

*Lwfansau Cynghorwyr 2018/19 (gan gynnwys lwfans y Cadeirydd)*

Roedd HMRC wedi dweud y dylai POB lwfans a delid i Gynghorwyr dan gytundeb Panel Taliadau Annibynnol Cymru gael eu talu dan PAYE. Byddai'r Clerc yn anfon ffurflenni o gwmpas i'w llenwi a'u dychwelyd cyn 30 Ebrill 2018 gan unrhyw un nad oedd yn dymuno cael lwfans. Dywedwyd y dylai unrhyw un sy'n cael budd-daliadau gael cyngor arbenigol ar effaith darparu lwfans i Gynghorwyr, hyd yn oed os nad oedd yn cael ei gymryd.

*Archwiliad Mewnol*
Cytunwyd i ofyn i Mrs J Jamison roi dyfynbris am yr Archwiliad Mewnol. Roedd y Clerc wedi cael gwybod y byddai'r pecynnau archwiliad mewnol yn cael eu hanfon allan yn hwyr eto, oherwydd gwall argraffu. Mannau i roi sylw arbennig iddyn oedd: ad137 taliadau, cydnbyddiaethau (ddim yn berthnasol i Langoedmor), archwiliad mewnol (angen mwy o wybodaeth yn yr adroddiad)
GWEITHREDU: Cysylltu â Mrs Jamison GAN: y Clerc

*Roedd gwaith trwsio to adeilad y Mileniwm wedi'i orffen.* Roedd y Clerc wedi bod yn holi eto am fater trwsio'r aradr ac yn disgwyl ymateb. Roedd wedi dweud wrth y tîm plismona lleol am yr oedi gyda marcio DNA.

*GDPR*
Roedd y pecyn offer wedi cyrraedd drwy Un Llais Cymru, a deellid y byddai CSC yn cynnig cyngor. Byddai rhagor o wybodaeth oddi wrth SLCC yn cael ei darparu.

*Archwiliad Blynyddol o'r Maes Chwarae*
Y Clerc i drefnu ymweliad.

**10. Priffyrdd a Hawliau Tramwy Cyhoeddus**
*Niwed i'r cosgodfan bws*
Roedd Mr E Rees wedi awgrymu ei bod yn ymddangos mai cerbyd gyda bympar uchel oedd wedi taro'r cysgodfannau ym Maeshelyg a Glanarberth. Byddai trwsio'r gysgodfan ym Maeshelyg yn costio tua £30 pe bae'r stribedi dal yn dod i ffwrdd yn hawdd.
GWEITHREDU: Cysylltu â Mr Rees i drefnu'r gwaith trwsio GAN: y CLERC

*Blychau blodau*
Roedd y CC wedi cael gwybod mai llain borfa'r Adran Briffyrdd oedd y safle yng Nghroes-y-llan. Nodwyd nad oedd y preswylydd a oedd yn pryderu am y lleoliad wedi cysylltu 'r Clerc yn uniongyrchol. Cytunwyd i fynd ymlaen a gosod y blychau blodau. Roedd dyfynbrisiau wedi cyrraedd ar gyfer plannu''r blychau a gofalu amdanynt. Cytunwyd y dylai'r Clerc holi am hyn.
GWEITHREDU: y CLERC i holi

*Mainc*
Roedd y Cyng H. Davies yn garedig wedi cytuno i osod y fainc ar ol iddi gyrraedd. Byddai'n cael ei harchebu pan geid cadarnhad y byddai'r fainc yn ffitio ar y sail goncrid bresennol.

*Atal Coed*
Roedd y Clerc wedi cysylltu â CNC – yn disgwyl ateb.

**11. Amwynderau**
*Trac*
Roedd y gwaith o osod concrid ar y trac yn dibynnu ar y tywydd ac nid oedd wedi dechrau eto.

*Bloc toiledau*
Roedd Mr E Rees wedi dweud bod defnydd o'r toiledau wedi bod yn cynyddu'n raddol ers 18 mis ac erbyn hyn wedi cyrraedd man lle roedd y blychau papur toiled yn cael eu llenwi rhwng y troeon pan fyddai'n glanhau. Cytunwyd i ofyn i Mr Rees gyflwyno dyfynbris am lanhau 3 gwaith yr wythnos a) drwy'r flwyddyn b) o fis Ebrill tan ddiwedd mis Hydref.
GWEITHREDU: Cysylltu â Mr Rees GAN: y CLERC

*Hysbysfwrdd*
Roedd y Clerc wedi siarad â Mr Rees ynglyn â dyfynbris am osod yr hysbysfwrdd newydd i fyny. Roedd y pecynnau heb ei hagor hyd yma oherwydd byddai angen eu symud i'r pentref rywbyd.

*Asesiadau risg ar gyfer holl asedion tir/eiddo y CC*
Dywedodd y Clerc fod angen gwneud hyn cyn gynted ag y byddai amser yn caniatáu. Gofynnwyd pan sicrwydd oedd gan y Cyngor ar gyfer y parc ceir.

**12. Prosiectau'n parhau**
Dim.

**13. Digwyddiadau**

Y diweddaraf am Ginio'r Cadeirydd.
20 Ebrilll 2018, 7pm, Seven Stars

**14. Adroddiadau cyfarfodydd**
*Hyfforddiant cynllunio*
Roedd y Cynghorwyr a oedd wedi bod yn bresennol yn teimlo y gallai'r hyfforddiant fod yn fwy defnyddiol ynglŷn ag ymateb i geisiadau cynllunio. Roedd swyddogion cynllunio CSC wedi bod o gymorth mawr yn ystod y sesiwn hyfforddi.

**15. Gohebiaeth / + gohebiaeth e-bost**
*Nodwyd:*

Deiseb Ray Ceredigion am gael arian gan Lywodraeth Cymru ar gyfer darpariaeth chwarae ledled Cymru - dyddiad olaf 28 Chwefror 2018

Trawsnewid Gwasanaethau Iechyd Meddwl

Seremoni Gwobrau Arfer Arloesol Blynyddol 2018

Cofrestrwch Eich Cyngor Plwyf ar gyfer GBSpringClean

Un Llais Cymru - Bwletin Newyddion Chwefror 2018

Heneiddio'n Dda yng Nghymru - Arolwg partneriaid strategol

Cyfarfod rhwng Cyngor Sir Ceredigion a'r Cynghorau Tref a Chymuned yng Ngheredigion 16/01/18

Cefnogaeth ariannu ar gael yn 2018-19

**16. Cyfnewid Gwybodaeth**
Gofynnwyd a allai'r fenter Gwylio Cyflymdra gael ei hyrwyddo eto gan nad oedd digon o wirfoddolwyr wedi dod ymlaen hyd yma i redeg y cynllun.

Dywedodd y Cyng Mrs N Redmond, drwy'r Cyng Mrs A Edwards, ei bod wedi cysylltu â CSC ynglŷn â 'Mabwysiadu Llwybr' ac y byddai'n rhoi adroddiad pan fyddai'n bresennol yn y cyfarfod nesaf.

Cytunwyd, lle byddai holiaduron yn cael eu hanfon ymlaen, drwy'r Clerc, fod hynny'n galluogi pobl i ateb fel unigolion. Gallai Cynghorwyr ymateb gan wneud yn glir mai fel unigolion yn hytrach nag ar ran y Cyngor roeddent yn gwneud hynny.

Gofynnwyd a oedd gan y Cyngor gynllun iaith Gymraeg. Nodwyd bod y Cyngor yn gryf ei gefnogaeth i'r iaith Gymraeg ond nad oedd ganddo bolisi ffurfiol wedi'i gofnodi yn ei waith papur.

Nodwyd bod dyddiad terfyn y glanhau gwanwyn gan Cadw Prydain yn Daclus wedi ei ymestyn, a chytunwyd y dylid holi'r ysgol ynglŷn â threfnu sesiwn i glirio sbwriel. GWEITHREDU: Holi'r ysgol.

Gofynnwyd a allai ffynhonnell o halen ffordd gael ei gosod yn y gilfan wrth ymyl Cwr Coed.

**17. Dyddiad y cyfarfod nesaf – 9.4.18 - 7.00pm**

*Gan nad oedd dim busnes pellach i'w drafod, daeth y cyfarfod i ben am 9.33pm.*